

# WCVA Criminal Records Unit

---

## TAFLEN FFEITHIAU GDG

Daeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) newydd i fodolaeth ym mis Rhagfyr 2012 gan gyfuno swyddogaethau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (sef y CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, i ddarparu mynediad at gofnodion troseddol a gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwahardd. Bu i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 gyflwyno a diffinio gweithgaredd rheoledig fel gwaith na chaiff rhywun gwaharddedig ei wneud. Bu i Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 ddiwygio'r diffiniad o weithgaredd rheoledig er mwyn canolbwyntio ar waith sy'n cynnwys cyswllt agos, heb oruchwyliaeth, â grwpiau agored i niwed.

Mae'n **orfodol yn ôl y gyfraith** i rolau sy'n cael eu cyfrif yn weithgaredd rheoledig, gyda phlant neu oedolion mewn perygl oherwydd oedran, salwch neu anabled, gael eu gwirio yn erbyn y rhestr wahardd briodol (oedolion, plant neu'r ddau) y ceir mynediad atynt drwy wiriad GDG manwl. **Mae'n drosedd i rywun gwaharddedig geisio am waith mewn gweithgaredd rheoledig neu i gyflogwr gyflogi rhywun gwaharddedig mewn gweithgaredd rheoledig gan wybod ei fod wedi'i wahardd, pan fo'n berthnasol i'r gweithlu y mae'r gwaharddiad yn cyfeirio ato.**

Mae gwiriad manwl yn edrych yng nghronfa ddata Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu am hanes troseddol; collfarnau, rhybuddiadau, rhybuddion neu geryddon, a fydd yn ymddangos ar dystysgrif GDG yn amodol ar reolau hidlo mis a gyflwynwyd Mai 2013, a gall gynnwys hefyd wybodaeth yr heddlu lleol sy'n berthnasol i'r gweithlu.

Gall rolau sydd ddim yn weithgaredd rheoledig ond sy'n cynnwys gwaith agos â grwpiau agored i niwed fod yn gymwys am wiriad GDG manwl, yn amodol ar feini prawf GDG, ond ni ellir eu gwirio yn erbyn y rhestrau gwahardd. Mae gwneud cais am wiriad GDG manwl am weithgaredd anrheoledig yn arfer da. Mae'n drosedd i wneud cais am wiriad pan nad yw'r rôl yn gymwys am un neu i ofyn i gael gweld mwy o wybodaeth nag y mae gan y cyflogwr hawl i'w gweld.

At ddibenion gwiriadau GDG, mae gwirfoddolwyr yn cael eu trin yr un fath â staff cyflogedig ac eithrio nad yw gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant bellach yn cael eu hystyried yn weithgaredd rheoledig os ydynt yn cael eu goruchwyllo yn unol ag arweiniad yr Adran Addysg. Rhaid iddynt gael eu goruchwyllo gan rywun sydd mewn gweithgaredd rheoledig ac sydd wedi cael gwiriad GDG manwl a gwiriad o'r rhestr wahardd (plant). Ni chodir tâl am wiriadau i wirfoddolwyr ac yng Nghymru mae gan bob mudiad trydydd sector fynediad am ddim at wiriadau GDG drwy Uned Cofnodion Troseddol WCVA.

# WCVA Criminal Records Unit

---

Mae strategaeth ddigidol y Llywodraeth a'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau yn darparu ar gyfer trefniadau newydd hyd at 2015, a'r cyntaf ohonynt yw cyflwyno tystysgrif un cyhoeddiad i'r ymgeisydd yn unig (sy'n eu galluogi i herio unrhyw anghywirdeb cyn i gyflogwr weld y wybodaeth) a mynediad at wasanaeth diweddarau tystysgrifau, a lanswyd ym mis Mehefin 2013.

Mae Gwasanaeth Diweddarau GDG yn galluogi i'r dystysgrif gael ei throsglwyddo cyn belled â bod hynny o fewn yr un gweithlu a'r un lefel o wiriad. Cyfrifoldeb a dewis yr ymgeisydd yw tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddarau (£13 i staff cyflogedig, am ddim i wirfoddolwyr). Bydd am ddim i gyflogwyr ymweld â'r wefan a, gyda chaniatâd yr ymgeisydd, darganfod a oes gwybodaeth newydd ar gael y gellir gwneud cais amdani drwy wiriad GDG newydd.

Mae gan ddarparwr gweithgaredd rheoledig ddyletswydd i gyfeirio at GDG rywun mewn gweithgaredd rheoledig sy'n niweidio rhywun yn eu gofal, neu a allai beri niwed. Mae GDG yn defnyddio proses ddyfarnu strwythuredig i benderfynu a ddylid gwahardd yr unigolyn a gyfeiriwyd rhag gweithgaredd rheoledig.

Useful links:

[www.wcva-cru.org.uk](http://www.wcva-cru.org.uk)

<https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/overview>

[crusafeguarding@wcva.org.uk](mailto:crusafeguarding@wcva.org.uk)